YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref (ii) 2018 —Blynyddoedd 1 a 2

Thema'r tymor yw '**Tân!**'

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor:

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am hanes Guto Ffowc.
- Dysgu a darganfod ynglŷn â sut mae'r gwasanaeth tân wedi newid dros y blynyddoedd.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Dysgu am ddiogelwch tân;
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae byd bach 'Gorsaf Dân' / ' Gweithdy Sion Corn' yn y gornel chwarae rôl;
- Darllen a gwrando ar lawer o straeon doniol a diddorol;
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen;
- Mwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol, gan gynnwys ysgrifennu **adroddiadau ffeithiol a ffuglen**;
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**
Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau;

Datblygu'r gallu i enwi ac arbed ein gwaith yn y man priodol.

**Addysg Grefyddol:**

Astudio gŵyl Diwali.

Dysgu am stori'r Nadolig.

Dysgu am yr eglwys Gristnogol.

Datblygiad Corfforol

- Datblygu a gwella ein ffitrwydd
- Ymarfer ein sgiliau llawdriniol manwl yn yr ardal 'bysedd prysur'.
- Datblygu ein sgiliau gymnasteg.

**Datblygiad Creadigol**
Dysgu caneuon newydd a mwynhau ymarfer a pherfformio ein cyngerdd Nadolig (11/12/18);

Arborfi ag offerynnau i greu cyfansoddiad i gyd-fynd â delweddau o dân gwyllt.

Datblygu sgiliau gwnïo wrth greu addurn Nadolig.

Blwyddyn 2 - Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams @YGGBYMRJones @YGGBYMROwen**

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau;
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi;
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur (amser) a thrin data;
- Chwarae amrywiaeth o gêmau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

- Gorsaf Dân Sgeti.
- Eglwys leol.

Dyddiadau i'w cadarnhau

28/11/18 - Ymweliad â'r theatr - sioe Hugan Fach Goch.